

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig o dan y teitl Adroddiad ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.**

---

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor ar yr un wythnos ac y bu imi gyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru. Mae arfordir Cymru a'r moroedd o amgylch Cymru yn ased naturiol anhygoel, sy'n cyfrannu at ein llesiant, yn ogystal â miloedd i economi Cymru. Rwy'n cydnabod yn llawn bwysigrwydd ecosystemau morol iach, cynhyrchiol, amrywiol yn fiolegol, a chadarn – mae rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (AMG) yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni hyn. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn pennu am y tro cyntaf ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer defnyddio ein moroedd mewn dull cynaliadwy. Mae'r Cynllun yn cadarnhau ein polisiau presennol i reoli rhwydwaith o AMG sydd â chydlyniant ecolegol.

Rwyf wedi ymrwmo i gysylltu gyda a chydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid allanol i ddatblygu a sicrhau bioamrywiaeth a chadwraeth forol, gan gynnwys rheoli AMG. Ers adroddiad cychwynnol y Pwyllgor ym mis Awst 2017, "Y Llanw'n Troi? Adroddiad ar yr Ymchwiliad i Ddull Llywodraeth Cymru o Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig", rwyf wedi cryfhau'r rhwydwaith drwy gymryd camau gwarchod ychwanegol ar gyfer rhywogaethau symudol iawn (llamhidyddion ac adar môr), ac ar gyfer strwythurau unigryw ar wely'r môr ym moroedd Cymru.

Rydym ni, gydag aelodau eraill y Grŵp Llywio Rheoli AMG, wedi datblygu Fframwaith Rheoli y Rhwydwaith AMG 2018-2023 a Chynllun Gweithredu blynyddol. Fel Grŵp Llywio, rydym yn parhau i ystyried ar y cyd sut y gellir blaenoriaethu a thargedu gweithgarwch rheoli er mwyn cynorthwyo i wella cyflwr cyffredinol y rhwydwaith trwy reoli effeithiol. Mae hyn yn galw am ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r pwysau fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gyflwr nodwedd, ac felly, ar wella y cyfraniad y mae'r rhwydwaith yn ei wneud at iechyd, cadernid a swyddogaethau moroedd Cymru.

Fel y mae'r Pwyllgor wedi ei gydnabod, mae rheoli'r 139 o AMG sydd gennym yng Nghymru yn cynnwys ystod eang o sefydliadau ac mae'n golygu nifer o elfennau, o orfodi morol gan Swyddogion Gorfodi Morol, i gasglu tystiolaeth a monitro. Fel a ddywedais yn fy nhystiolaeth blaenorol i ymchwiliad 2017, mae llawer iawn o weithgarwch rheoli AMG megis prosesau cydsynio i reoleiddio ac asesu fel trwyddedu morol, er nad ydynt bob amser i'w gweld gan y cyhoedd "ar y safle", maent yn gamau diogelu hollbwysig i'n hamgylchedd forol. Fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod ein moroedd yn cael eu rheoli yn gynaliadwy. Rwyf wedi ymrwmo o hyd i gwblhau cydlyniant ecolegol y rhwydwaith a sicrhau ei fod yn cael ei reoli yn effeithiol.

Hoffwn ddiolch i aelodau y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig am eu hadroddiad. Rwyf wedi nodi isod fy ymateb i argymhellion penodol y Pwyllgor.

## **Argymhelliad 1**

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth uchelgeisiol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ar frys. Dylai wneud hynny erbyn yr haf 2020. Dylai'r strategaeth ganolbwyntio ar yr angen i ddefnyddio dulliau lleol a dulliau ar lefel rhwydwaith i gyflawni amcanion cadwraeth Ardaloedd Morol Gwarchoddedig unigol lle y bo'n briodol. Dylai'r fframwaith a'r cynllun gweithredu fod yn rhan ategol o'r strategaeth. I gyd-fynd â'r strategaeth, dylid darparu esboniad o sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu'r gwaith o Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn barhaus. Dylai'r strategaeth fod yn destun ymgynghoriad llawn a dylid ei hadnewyddu o bryd i'w gilydd

### **Ymateb: Gwrthod**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd Grŵp Llywio Rheoli AMG y Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru. Mae'r ddogfen hon yn cynnig gweledigaeth, amcanion ac egwyddorion cyffredinol i lywio'r broses o reoli AMG tan 2023, wedi'i gefnogi gan Gynlluniau Gweithredu blynyddol sy'n cynnwys gweithredu lleol ac ar lefel y rhwydwaith. Mae ein hadnoddau yn canolbwyntio ar gyflawni a gwella ein trefniadau llywodraethu megis cysylltu â rhanddeiliaid drwy Is-grŵp Cydnerthedd Morol newydd y Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG), yn hytrach na pharatoi strategaeth.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.**

## **Argymhelliad 2.**

Dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig sut i gael mewnbwn gan sylfaen ehangach o randdeiliaid a mwy o awdurdodau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Gallai hyn gynnwys ehangu'r grŵp i gynnwys aelodau ychwanegol neu greu is-grwpiau perthnasol. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ganlyniad y trafodaethau hyn.

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Sefydlais Grŵp Llywio Rheoli AMG ym mis Mehefin 2014 ac rwy'n ystyried bod ganddo aelodaeth a chynrychiolaeth briodol gan sefydliadau sydd â chyfrifoldeb statudol tuag at reoli AMG ledled Cymru. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y gellid gwneud mwy i sicrhau mewnbwn ehangach i'r Grŵp Llywio a dyna pam y sefydlodd fy swyddogion Is-Grŵp Cydnerthedd Morol WMAAG yn ddiweddar i gydweithio ar bob agwedd ar y polisi bioamrywiaeth morol. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Tachwedd 2019 ac roedd hwnnw'n cynnwys rheolwyr AMG, yn benodol i ddatblygu y Cynllun Gweithredu Rhwydwaith AMG blynyddol nesaf.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau presennol rhaglenni.

### **Argymhelliad 3**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid cyflwyno dyletswyddau i Weinidogion Cymru, yn debyg i'r dyletswyddau ar Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau yn Lloegr o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a dylent adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fy mod wedi ymgynghori ar Brexit a'n Moroedd dros yr haf 2019, ac rwy'n bwriadu adrodd yn ôl ar hyn yn fuan. Yn dilyn hyn, rydym wedi ymrwmo i ddatblygu, gyda rhanddeiliaid, bolisi ar gyfer pysgodfeydd yn y dyfodol sy'n helpu inni gyflawni yr amcanion ar gyfer pysgodfeydd a amlinellir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Rwyf hefyd wedi ymrwmo i ddatblygu Bil Pysgodfeydd Cymru, ac mae amseru hyn yn ddibynnol ar Fil y DU. Byddaf yn hapus i adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar amser priodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau presennol rhaglenni.

### **Argymhelliad 4.**

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynigion, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, ar gyfer dull gweithredu ar sail ardal a fyddai'n gweld awdurdodau rheoli yn rhoi swm o arian yn y pot sy'n gymesur â maint yr ardal warchoddedig y mae ganddynt gyfrifoldeb amdani. Dylai'r cyllid hwn fod yn ychwanegol at y cyllid ar gyfer y camau yn y Cynllun Gweithredu, yn hytrach nag yn lle'r cyllid hwnnw.

#### **Ymateb: Gwrthod**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae'r Grŵp Llywio ar Reoli AMG eisoes wedi ystyried a gwrthod y dull o weithio hwn. Rwyf wedi hysbysu'r Pwyllgor eisoes fy mod yn cefnogi penderfyniad y Grŵp Llywio.

Mae natur a lleoliadau y rhwydwaith AMG yn nyfroedd Cymru wedi newid yn sylweddol o'r cyfnod pan oedd safleoedd ar wahân mawr, megis y pum Ardal Cadwraeth Arbennig (ACAau), i'r matrices cymhleth presennol o 139 o safleoedd ar y môr ac ar y glannau. Mae'n amlwg bod angen canolbwyntio yr adnoddau a'r gwaith rheoli ar reoli'r rhwydwaith fel rhwydwaith, drwy fynd i'r afael â phwysau ar raddfeydd priodol, gan gynnwys y rhai sy'n ymestyn yn ehangach na dyfroedd Cymru.

Mae'r Grŵp Llywio yn ceisio canolbwyntio y gwaith a thargedu adnoddau ar feysydd gwaith sy'n fwyaf tebygol o wella y dull rheoli a chyflwr y nodwedd, a thrwy hynny wella y cyfraniad y mae'r rhwydwaith yn ei wneud at iechyd, sefydlogrwydd a

swyddogaethau cyffredinol moroedd Cymru. Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf sy'n gysylltiedig â Fframwaith Rheoli y Rhwydwaith AMG a'r Cynllun Gweithredu yn dangos y gellir cwblhau gwaith wedi'i flaenoriaethu, o wahanol fathau, o'r safleoedd i waith ar draws y rhwydwaith, gan ganolbwyntio ar y meysydd sydd ei angen fwyaf.

Hoffwn bwysleisio i'r Pwyllgor, er nad oes modd ei weld "ar y safle", bod Awdurdodau Rheoli AMG yn rheoli safleoedd drwy brosesau cydsynio ac asesu rheoleiddiol yn bennaf. Caiff gweithgareddau eu hasesu, yn ogystal ag unrhyw fesurau lliniaru, drwy Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn cadw uniondeb yr AMG. Mae prosesau o'r fath, sydd hefyd yn cynnwys Asesiadau o'r Effaith ar yr Amgylchedd a thrwyddedu morol, yn gwarchod y rhwydwaith AMG mewn ffyrdd hollbwysig, ac yn rhan sylweddol o waith fy swyddogion a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rwy'n cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud yn lleol i gynorthwyo gyda rheoli y safleoedd. Rwy'n ariannu nifer o gamau sy'n flaenoriaethau o dan Gynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith AMG 2019-2020 i gefnogi gweithgareddau lleol ar y safle sy'n cefnogi'r rhwydwaith.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau presennol y rhaglen.

### **Argymhelliad 5**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, mewn trafodaeth â phum Grŵp Awdurdod Perthnasol Cymru, sut y bydd Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn datblygu dull mwy integredig o weithio gyda'r grwpiau hyn

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd fy swyddogion yn ysgrifennu at Gadeiryddion Grwpiau Awdurdod Perthnasol yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol i ofyn iddynt gyfrannu at Is-grŵp Cydnerthedd Morol WMAAG. Bydd hyn yn galluogi'r Grwpiau Awdurdod Perthnasol i gysylltu gyda'm swyddogion ar bynciau megis Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Mae nifer o aelodau y Grŵp Llywio Rheoli AMG yn aelodau o nifer o Grwpiau yr Awdurdodau Perthnasol, yn ogystal â chynghorydd y Swyddog Safle Morol Ewropeaidd ar y Grŵp Llywio.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Byddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 6**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r nifer benodol o staff yng nghanen cadwraeth forol Is-adran y Môr a Physgodfeydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mater i'r Ysgrifennydd Parhaol yw staff y gwasanaeth sifil. Rwyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ysgrifennu atoch ar y mater hwn.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 7**

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei strategaeth dwristiaeth sydd ar ddod yn rhoi sylw i fioamrywiaeth a chadwraeth forol.

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd y Cynllun Gweithredu Twristiaeth sydd ar y gweill, yn seiliedig ar Flaenoriaethau y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar gyfer yr Economi Ymwelwyr yn ystod 2020-25, yn datblygu twristiaeth er lles Cymru drwy sicrhau Twf Economaidd fydd yn sicrhau manteision I bobl a lleoedd gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a manteision iechyd.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi'n glir bwysigrwydd cynnal adnoddau naturiol ac yn egluro "Mae ein cynnig craidd yn seiliedig ar dirweddau neilltuol yng ngofal pawb – tirweddau naturiol hygyrch, wedi'u diogelu gan gynnwys ein hamgylchedd morol. Mae nifer o'r sefydliadau yng Nghymru sy'n gofalu am ein hadnoddau naturiol, - megis Cyfoeth Naturiol Cymru, ein Parciau Cenedlaethol, sefydliadau gwarchod bywyd gwyllt a'r môr, a hyd yn oed sefydliadau fel Dŵr Cymru – yn darparu mwy a mwy o brofiadau o safon uchel i ymwelwyr. Mae yr hyn y maent yn ei gynnig i dwristiaid yn golgygu y gall mwy o bobl fwynhau ein hadnoddau naturiol gwych, ond mae hefyd yn helpu i wneud y sefydliadau hyn yn fwy cynaliadwy. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau treftadaeth naturiol, morol a chefn gwlad i helpu iddynt ddatblygu yr hyn sydd ganddynt ei gynnig i ymwelwyr.

Bydd Croeso Cymru hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn marchnadoedd o dwf arbenigol megis Twristiaeth Mordeithiau a Morol, gan werthuso yr effaith economaidd o gymharu ag effaith amgylcheddol y rhaglen hon i sicrhau dull cynaliadwy o weithredu sydd, os y caiff ei reoli'n ofalus, yn cynnig manteision eang o ran llesiant."

Caiff y Cynllun Gweithredu ei lansio ddiwedd Ionawr 2020. Bydd swyddogion twristiaeth yn parhau i weithio'n agos â'm swyddogion yn adran y Môr a Physgodfeydd i fynd ymlaen â'r cynllun.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 8.**

Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at gynrychiolwyr y sector twristiaeth bywyd gwyllt morol i'w gwahodd i Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol a

dylai roi diweddariad ar hynt sefydlu is-grŵp Bioamrywiaeth o Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol.

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwy'n cytuno bod cymryd rhan yn y sector twristiaeth bywyd gwyllt morol yn bwysig wrth gefnogi mentrau gwarchod morol. Pwrpas WMAAG yw i aelodau gyflwyno a rhoi adborth am safbwyntiau gan y sector y maent yn ei gynrychioli. Mae gennym gynrychiolaeth ar hyn o bryd ar WMAAG o secotrau twristiaeth megis Croeso Cymru, Fforwm Arfordirol Sir Benfro, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae rhai o'n haelodau yn rhan uniongyrchol o dwristiaeth morol, megis teithiau cychod. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw sefydliad sy'n cynrychioli'r sector twristiaeth morol, felly, byddwn yn cymryd argymhelliad y Pwyllgor i gyfarfod nesaf WMAAG er mwyn i aelodau awgrymu cynrychiolydd addas ar gyfer y sector ac i estyn gwahoddiad iddynt.

Fel a nodwyd mewn ymateb i Argymhelliad 2 uchod, mae Is-grŵp Cydnerthedd Morol WMAAG sy'n canolbwyntio ar faterion bioamrywiaeth morol eisoes wedi'i sefydlu a chyfarfu am y tro cyntaf ar 13 Tachwedd 2019.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 9**

Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw mesurau rheoli wedi eu gweithredu eto o ganlyniad i Brosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru ar gyfer gweithgareddau risg uchel, a gyhoeddwyd yn 2017. Dylai gyflwyno ymgynghoriad ar opsiynau rheoli ar y gweithgareddau hyn ar frys. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar amserlen gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cwblhau'r asesiadau sy'n weddill, ond ni ddylai hynny fod yn hwyrach na mis Ionawr 2021 fan bellaf. Dylai Llywodraeth Cymru asesu lefel yr adnoddau fydd eu hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gwblhau'r gwaith hwn

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Yn ystod 2019 bu fy swyddogion yn gweithio gyda Fishers, Prifysgol Bangor, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill i gynnal arolygon i sefydlu cyflwr a nifer y nodweddion cynefinoedd morol sensitif. Caiff y canlyniadau eu defnyddio i lywio y cynigion rheoli ar gyfer gweithgareddau pysgota offer symudol risg uchel. Bydd y cynigion hyn yn llunio rhan o ymgynghoriad cyhoeddus a ddylai, gan ddibynnu ar effaith gwaith sy'n gysylltiedig â Brexit, ddechrau yn gynnar yn 2020. Hoffwn ddweud wrth y Pwyllgor fy mod wedi ymrwymo i warchod nodweddion dynodedig, yn unol â Chyfarwyddebau Adar a Cynefinoedd yr UE.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddarparu y prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota yng Nghymru (AWFA). Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu swydd swyddog prosiect gyda Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn cynnal asesiadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y prosiect. Mae'r 40 o sefyllfaoedd â'r risg uchaf o ran cynefinoedd/offer wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Mae cyfnanswm o 516 o asesiadau, gyda 476 ar ôl i'w cyhoeddi, sy'n golygu 347 ar risg canolig a 129 sefyllfa â risg isel. Mae'r asesiadau sy'n weddill yn cael eu datblygu gan CNC mewn sypiau gyda blaenoriaethau, nodweddion ac offer tebyg. Mae CNC yn gweithio ar hyn o bryd ar asesiadau risg canolig (mamaliaid morol a physgota â chewyll). Bu datblygiadau o ran drafftio nifer o'r asesiadau risg canolig ac isel cymhleth hyn, ond nid ydynt wedi bod drwy broses sicrwydd ansawdd/adolygiadau gan gymheiriaid a'u cyhoeddi. Byddai'n heriol iawn i gadw at yr amserlen a awgrymwyd gan y Pwyllgor gan gynnal y safonau tystiolaeth a sicrwydd ansawdd. Bydd CNC yn parhau i gynnal yr asesiadau gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar risg, gan anelu at gwblhau pob asesiad mor gyflym ac sy'n ymarferol bosibl, heb beryglu uniondeb gwyddonol yr allbynnau.

Rwy'n edrych ar yr adnoddau sydd ar gael i fy mhortffolio, ac yn gwneud hynny yn ogystal â'm trafodaethau rheolaidd gyda'r Cadeirydd a Phrif Weithredwr CNC.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwnaegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 10**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa mor ddymunol fyddai gwneud y gwaith o gynhyrchu adroddiadau cyflwr nodweddion ar lefel safle a chasglu gwybodaeth fonitro berthnasol yn ofyniad statudol

### **Ymateb: Derbynn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae data monitro ac adroddiadau ar y safle yn hollbwysig i ddeall cyflwr AMG yng Nghymru, gan lywio'r sylfaen dystiolaeth a chefnogi proses reoli effeithiol. Mae CNC yn edrych ar y dull o fonitro safleoedd i alluogi asesiadau amserol o gyflwr safle AMG.

Mae sbardunau cyfreithiol eisoes ar gael ar gyfer asesiadau o gyflwr safleoedd yng Nghymru, ac felly nid oes angen imi gyflwyno deddfwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Erthygl 17 Cyfarwydddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd sef cofnod gan Lywodraeth y DU i'r Comisiwn Ewropeaidd, cofnod Adran 124 ar rwydwaith yr AMG gan Weinidogion Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, sy'n cynnwys cofnod gan Lywodraeth y DU i Gomisiwn OSPAR. Er nad yw'r rhain yn nodi unrhyw ofynion statudol penodol, dylid cydnabod eu bod yn sbarduno asesiadau cyflwr ar y safleoedd gan bod hyn yn ddull allweddol o sicrhau y canlyniadau cofnodi cyffredinol sydd eu hangen. Mae cofnodi effeithiolrwydd rheoli OSPAR, er enghraifft, yn ei wneud yn ofynnol i gael gwybodaeth am fonitro a chyflwr y safle yn benodol. Mae dyletswydd newydd yn y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE)

2019, Rheoliad 6a sy'n galw am gyhoeddi adroddiad ar weithredu'r mesurau ar gyfer gwarchod y mathau o gynefinoedd naturiol sy'n cael eu rhestru yn Atodiad 1 y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a rhywogaethau sy'n cael eu rhestru yn Atodiad II y Gyfarwydddeb honno. Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad hwn pob chwe mlynedd o'r diwrnod ymadael.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu oddi wrth gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 11**

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod bylchau tystiolaeth Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn cael sylw drwy roi'r Cynlluniau Tystiolaeth Morol a'r Cynlluniau Tystiolaeth Pysgodfeydd ar waith

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru fel dogfen fframwaith strategol lefel uchel yn llywio y Cynllunio ar gyfer Gweithredu gan Lywodraeth Cymru a CNC. Bydd Cynlluniau y Camau Gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth, ar y cyd â phrosiectau eraill, megis datblygu rhaglen monitro bioamrywiaeth morol fforddiadwy sydd wedi ei blaenoriaethu, yn gwella y sylfaen dystiolaeth i gefnogi AMG, o ran deall y prif bwysau yn well ac wrth lywio penderfyniadau rheoli.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 12**

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar hynt gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol posibl. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyflwyno cynigion ar gyfer ymgynghoriad cyn gynted â phosibl, ond heb fod yn hwyrach na mis Chwefror 2020 fan bellaf.

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â CNC a'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur swyddogion Prosiect Cwblhau Rhwydwaith AMG a swyddogion Tîm y Prosiect. Mae Tîm y Prosiect wedi gwneud gwaith paratoadol sylweddol cyn cyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac wedi hynny, gan gynnwys datblygu amrywiol ddogfennau atodol a chrynhoi a diweddarau yr haenau o ddata cysylltiedig fydd yn sail i nodi a dynodi unrhyw Barciau Cadwraeth Morol yn y dyfodol.

Sefydlodd Tîm y Prosiect Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Parciau Cadwraeth Morol i weithio gyda rhanddeiliaid i lywio'r broses o nodi AMG posibl yn nyfroedd Cymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen cyntaf wedi ei gynnal, ac argymhellwyd proses fesul cam i nodi Parciau Cadwraeth Morol. Rhoddodd y rhanddeiliaid adborth ac roedd cefnogaeth gyffredinol i'r broses fesul cam. Rwy'n cydnabod, yn



dilyn y ffaith bod yn rhaid blaenoriaethu gwaith i ymadael â'r UE, bod y gwaith hwn wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Byddwn yn cyflawni'r gwaith hwn yn gyflymach yn 2020, fodd bynnag, nid yw'r awgrym o ymgynghoriad ym mis Chwefror 2020 yn bosibl.

Rwy'n sylweddoli bod angen sicrhau bod y broses fesul cam gan Dîm y Prosiect o ran yr AMG wedi eu hariannu'n ddigonol, a bod digon o drafod ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd i sicrhau bod cefnogaeth. Bydd yr amserlenni ar gyfer y prosiect yn adlewyrchu'r gofyniad cyfreithiol o dan Adran 119(10) Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, ynghylch ymgynghori cyn dynodi. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru baratoi gorchymyn dynodi o fewn 12 mis o ddechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus, os nad ydynt yn gwneud hynny, ni fydd y broses sy'n arwain at yr ymgynghoriad yn ddilys.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 13**

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ystyried, fel rhan o'i waith, yr angen am ddynodiadau Parthau Cadwraeth Morol gwarchoddedig iawn. Dylid ymgynghori'n helaeth â phartion â buddiant, fel pysgotwyr, er mwyn llywio'r ystyriaeth hono.

#### **Ymateb: Gwrthod**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Bydd y pwyllgor yn ymwybodol, yn 2012, i Lywodraeth Cymru ymgynghori yn gyhoeddus ar y posibilrwydd o gyflwyno Parthau Cadwraeth Morol sy'n cael eu gwarchod yn arbennig (hpMCZs). Roedd y broses ymgynghori yn un ddradleuol a sefydlodd y Gweinidog oedd yn gyfrifol ar y pryd Dîm Gorchwyl a Gorffen i edrych ar y mater. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion, gan gynnwys yr angen i asesu'r cyfraniad a wnaethpwyd gan y rhwydwaith AMG cyfredol (ar y pryd) yn erbyn egwyddorion rhwydwaith ecolegol cydlynol y DU y cytunwyd arnynt. Paratowyd yr adroddiad hwn gan Gyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Cyfoeth Naturiol Cymru, gan arwain at asesiad o'r rhwydwaith AMG yng Nghymru 2016. Yn 2013, tynnodd Llywodraeth Cymru eu cynigion ar gyfer hpMCZ yn ôl yn ffurfiol. Mae'r prosiect cyfredol i gwblhau y rhwydwaith AMG presennol a gwaith gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Parthau Cadwraeth Morol yn datblygu canfyddiadau asesiad 2016 i nodi Parthau Cadwraeth Morol newydd i lenwi y bylchau o ran cydlyniant ecolegol. Fel a ddywedwyd gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, nid y bwriad yw penderfynu ar lefel y diogelwch i'r Parthau Cadwraeth Morol ymlaen llaw. Bydd y gwarchod a'r rheoli yn cael ei lywio gan ofynion y nodweddion, sensitifrwydd i weithgareddau a'r hyn fydd ei angen i naill ai gynnal neu gyrraedd cyflwr ffafriol.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.**

### **Argymhelliad 14**

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ddatblygu cynllun ar gyfer dynodi Parthau Cadwraeth Morol ar gyfer rhywogaethau symudol.

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwyf wedi ymrwmo o hyd i ystyried yr angen am Barthau Cadwraeth Morol ar gyfer rhywogaethau symudol fel rhan o brosiect Cwblhau Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru. Cafodd y mater ei drafod yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen cyntaf a bydd y trafodaethau ar sut i ddatblygu hyn yn parhau yng nghyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol – Dim.** Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 15**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal neu gomisiynu asesiad o'r effaith ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn sgil ymadael â'r UE, gan gynnwys y posibilrwydd o golli mynediad at ymchwil, sefydliadau a chyllid yr UE. Wrth wneud hynny, dylai egluro sut y bydd yn lliniaru unrhyw effaith o'r fath.

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol imi ymateb i'w hadroddiad 'Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol wedi Brexit'. Rwyf wedi ymrwmo i barhau i gyrraedd yr un amcanion ag a nodwyd yn y Cyfarwyddebau Natur wedi ymadadael â'r UE. Rydym yn creu rhwydwaith ledled y DU o safleoedd wedi'u gwarchod i gymryd lle rhwydwaith Natura 2000 yr UE, gyda'r un amcanion. Byddwn yn parhau i reoli ac addasu'r rhwydwaith hwn drwy gydweithio'n agos â gweddill y DU. Hefyd, mae'r DU yn Barti Contractio i Gonfensiwn Bern ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewropeaidd, a Chonfensiwn OSPAR i Warchod yr Amgylchedd Morol yn rhan Ogledd-ddwyreiniol yr Iwerydd.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog "Paratoi ar gyfer Brexit heb Gytundeb" ar 16 Medi 2019. Mae hwn wedi asesu'n fanwl effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn pwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu yn llawn at gynlluniau megis Horizon 2020 ac i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau sydd ddim ar gael i drydydd gwledydd.

Mae fy swyddogion yn gweithio ar hyn o bryd ar gynllun dilynol i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Byddaf yn rhoi y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor unwaith y bydd y cynigion wedi'u llunio.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar gyfer agwedd asesu yr argymhelliad hwn, gan y bydd y costau yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol. Barn Llywodraeth Cymru yw na ddylai Cymru golli ceiniog oherwydd Brexit. Dyma'r addewid a wnaethpwyd yn ystod y refferendwm a byddwn yn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn atebol am hyn.